**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 13.04.26**

**4.1 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Mark Lewis a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)

**4.2 PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), . James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Simon Turner, Giles Bentham, Martin Hughes, Tegid John, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn yr ystafell ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Fe ofynwyd a oedd gwybodaeth ar gael ynglyn a chau Ffordd Pentre'r Efail fel oedd wedi ei ddatgan o dan gohebiaeth a datganwyd bod y ffordd hon yn cael ei chau ar yr 21ain o'r mis hwn oherwydd bod gwaith yn cael ei gario allan ar ran Dwr Cymru.

Cafwyd gyflwyniad gan Jo Cawling ynglyn ar gwaith mae hi yn ei wneud ar mwyn cefnogi twristiaeth yn yr ardal ag yn datgan ei bod yn bwriadu creu arwydd yn dangos y ffordd i fyny i'r castell ag atyniadau eraill yn y dref. Cytunwyd ei bod yn cysylltu gyda'r Cyng. Simon Turner ynglyn a'r wybodaeth oedd ei angen ar yr arwydd.

Cafwyd gyflwyniad gan gweinyddwr gwefan "Visit Harlech" ag yn datgan oherwydd bod y nifer o fusnesau sydd yn cyfranu at y wefan wedi disgyn bod dyfodol y wefan yn y fantol ag yn gofyn a fydda modd cael cyfraniad ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd iddi anfon llythyr i mewn i'r Cyngor ar gyfer cyfarfod nesa y Cyngor ynghyd a chopi o'r fantolen banc.

Croesawodd y Cadeirydd Mr. Steve Beech, Swyddog Cefnogi Cymunedau Meirionnydd, Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod y grantiau oedd ar gael i'r Cyngor a cytunwyd bod Mr. Beech yn cyfarfod rhai o'r Cynghorwyr i drafod y mater hyn ymhellach.

**4.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi llunio rhestr o'r is-bwyllgorau ond fel arall oedd hi wedi bod yn fis tawel.

**4.4 COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mawrth 2il 2026 fel rhai cywir.

**4.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cafwyd wybod gan y Cadeirydd ei fod wedi bod yn gweld Ms Rhian Corps ynglyn a trosglwyddo manylion gweinyddwr tudalen weplyfr y Cyngor iddo ag ei bod yn fodlon gwneud hyn.

Cafwyd wybod bod yr Is-Bwyllgor ariannol yn argymell i dderbyn prisiau Mr. Meirion Evans i gario allan gwaith yn cae chwarae Brenin Sior ag hefyd yn Llwybr Natur Bron y Graig a derbyniwyd y prisiau hyn gan gweddill yr Aelodau.

**4.6 DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**4.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – cafwyd wybod ganddi ei bod wedi mynychu cyfarfod gyda'r Heddlu yn Bermo ar y 13eg o fis diwethaf a wedi cael gwybod ganddynt bydd y cyfarfod misol maen't yn ei gynnal yn yr Hen Lyfrgell yn Harlech yn dod I ben o mis yma a byddant yn treualu am dri mis agor drws yr orsaf heddlu yn Bermo unwaith y mis lle fydd y cyhoedd yn gallu cerdded I mewn. Hwyrach byddant yn cychwyn cynnal sesiynau yn Llanbedr a Dyffryn Ardudwy ar ol mis Mehefin. O fis yma bydd ardal Harlech ymlaen tuag at Porthmadog yn dod o dan Heddlu Porthmadog lle mae ganddynt 5 PSCO.. Hefyd 'roedd wedi cael gwybod bod y toiledau ger gwesty'r Queens wedi gorfod cael eu cau yn ddiweddar oherwydd vandaliaeth

**4.8 MATERION YN CODI**

**A Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £97,856.71 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £22,866.29 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.
'Roedd y Clerc wedi anfon copïau o gynllun gyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27 i bob Aelod ymlaen llaw ac aethpwyd drwy'r cynllun hwn ag hefyd cafwyd wybod bod yr Is-Bwyllgor Cyllid wedi derbyn y cynllun hwn yn eu cyfarfod ar y 1af o'r mis hwn. Cytunodd pawb i fabwysiadu y cynllun hwn am y flwyddyn i ddod.

**B HAL - CIC**

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglyn ar sefyllfa diweddaraf i wneud gyda HAL – bod Cwmni Buddsoddi Harlech bellach yn fyw, eu bod wedi cael cyfarfod buddiol hefo Swyddogion o'r Parc Cenedlaethol diwedd mis diwethaf. Cafwyd wybod bod angen cau ffwrdd y maes parcio oherwydd bod rhai wedi bod yn parcio yna heb ganiatad dros y Pasg a cytunodd y Cyng. Tegid John osod "bollards" cerrig ar draws y fynedfa. Cytunwyd i gyfranu £1,700 iddynt eto mis yma.

**C Llwybr Natur Bron y Graig**

Datganodd y Cyng. James Maxwell bod gwaith yn mynd i gael ei wneud gan Mr. Meirion Evans i greu stepiau yn y safle uchod ag hefyd bod cwmni Proarb yn mynd i gario allan gwaith i docio y brigau coed a gwaredu coeden oherwydd eu bod yn amharu ar y gwifren trydan os byddant yn cael caniatad gan y Parc Cenedlaethol i gario allan y gwaith hyn.

**D Is-Bwyllgorau y Cyngor**

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi llunio rhestr o is-bwyllgorau y Cyngor ag y byddai yn anfon copi ymlaen i bawb cyn y cyfarfod nesa.

**E Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Joe Patton yn gofyn a fyddai yn bosib cael bin ysbwriel ail gylchu yng nghae chwarae Brenin Sior V fel yr un sydd yn cae chwarae Llyn y Felin. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi rhoid cais tebyg i mewn gyda Chyngor Cymuned arall ag eu bod wedi derbyn yr ateb canlynol - Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd yn datgan nid yw ceisiadau am finiau ailgylchu stryd yn cael eu prosesu ar hyn o bryd a bod pob cais o'r fath wedi cael ei ohirio am y tro ledled y sir. Hefyd yn datgan bod y Gwasanaeth Edrychiad Stryd ar hyn o bryd yn asesu eu gallu gyda'r adnoddau presennol i ychwanegu at nifer y biniau ailgylchu stryd sydd eisoes wedi eu gosod. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am bin ysbwriel ail gylchu.
Cafwyd wybod gan y Cadeirydd bod archeb wedi cael ei anfon am yr offer chwarae sydd ei angen yng nghae chwarae Brenin Sior ag hefyd bydd Mr. Meirion Evans yn cario allan y gwaith o osod llwybr a gosod giat.
Cafwyd wybod gan y Cadeirydd bod Tim Peldroed Merched Porthmadog wedi bod yn holi am gael les ar gae chwarae Brenin Sior ond cytunwyd i beidio a caniatau hyn.
Cytunwyd bod angen edrych am offer addas i gae chwarae Llyn y Felin.

**F Gwefan y Cyngor**

Datganwyd siom bod yr enw parth byth wedi cael ei drosgwlyddo i'r Cyngor a bod angen cychwyn Gweithdrefn Datrys anghydfod i gael yr enw parth yn nol i feddiant y Cyngor.

**G Seddi Cyhoeddus**

Cafwyd wybod bod rhai newydd wedi cael eu gosod ger mynedfa'r Eglwys ag ar ol trafodaeth cytunwyd gofyn i Mr. Lee Warwick wneud y gwaith o adnewyddu y seddi sydd eu angen a cytunodd y Cadeirydd gysylltu ag ef ag rhoid awdurdod iddo bod y gwariant am ddeunydd a llafuri fyny hyd at £1,000.

**H Materion a Gynigir**

Gofynodd y Cyng. Simon Turner a fyddai yn cael caniatad y Cyngor i wario hyd at £565 i archebu bunting a cytunodd yr Aelodau i hyn.

**4.9 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Codi ports blaen â tho llechi, ystafell wydr gefn a wal garreg 1.7m o uchder rhwng yr annedd a'r ffin ochr bresennol 17 Parc Bron-y-Graig, Harlech (NP5/61/678B)**
Cefnogi y cais hwn.

**Gosod 3 dormer ar y drychiad blaen, 4 ffenestr to ar y drychiad cefn, newidiadau i'r ffenestri a gosod ystafell wydr ar yr ochr Golygfa Hyfryd, Pencerrig, Ffordd Uchaf, Harlech (NP5/61/682)**
Cefnogi y cais hwn.

**Codi estyniad cefn unllawr a balconi/pont newydd gyda balwstradau gwydr (Cais diwygiedig i'r un a gymeradwywyd yn flaenorol o dan gyfeirnod NP5/61/670 dyddiedig 18/02/2025) Afallon, Ffordd Pen Llech, Harlech (NP5/61/670A)**
Cefnogi y cais hwn.

**4.10 ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £23,869.57 yn y cyfrif rhedegol a £85,890.67, yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid a Thollad | - £110.00 | - treth ar gyflog y Clerc |
| E. W. Owen a'i Chwmni | - £240.00 | – cwblhau P.A.Y.E ar lein |
| Un Llais Cymru | - £396.00 | – tal aelodaeth am y flwyddyn |
| A1 Electrical | - £1,080.00 | - gwaith trydanol yn y toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa |
| Cyngor Gwynedd | - £150.60 | - treth cwrt tenis |
| Cyngor Gwynedd | - £968.45 | - gwagio biniau ysbwriel y ddau barc chwarae |
| Mr. Joe Patton | - £175.80 | - nwyddau i'r ardd gymunedol |
| Bison | - £579.00 | - giat yn cae chwarae Brenin Sior |
| Grwp Rhandiroedd Harlech | - £472.84 | - darnau i'r brush cutter a mainc newydd |
| Mr. Gareth Jones | - £500.00 | - drws newydd ar sied potio rhandiroedd |
| Mr. J. E. Thomas | - £1,794.00 | - gwaith adnewyddu yn y rhandiroedd |
| Mr. Christopher Braithwaite | - £122.10 | – nwyddau i'r toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa |
| Mr. Meirion Griffith | - £210.00 | - torri gwair y fynwent gyhoeddus |
| Mr. Meirion Griffith | - £210.00 | - torri gwair amrywiol lefydd |
| Mr. Meirion Griffith | - £45.00 | - torri gwair cae chwarae Llyn y Felin |
| Mr. Lee Warwick | - £337.50 | - glanhau toiledau ger y castell |
| Mr. Simon Turner | - £17.58 | - nwyddau i osod y bunting |
| Flying Colours Flags | - £677.94 | - bunting i'r dref |

**Ceisiadau am gymorth ariannol (rhai wedi eu gadael ers y cyfarfod diwethaf)**

Karen & Danny Ratcliffe - wedi tynnu eu cais yn nol.
Sefydliad y Merched, Harlech - ddim wedi derbyn mwyn o wybodaeth
Visit Harlech - trafod y mater ymhellach mis nesa pan fydd llythyr a copi o'r daflen banc wedi cael ei derbyn.
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,700

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Tegid John a wnaeth y Cyng. Simon Turner gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Cyllid a Thollad - £3.123.55 – ad-daliad TAW

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Catrin Soraya Williams | – £165.00 | - gwasanaeth cyfieithu |
| Blachere Illuminations | - £2,467.20 | – goleuadau nadolig |
| Defib Store | £78.00 | - pad newydd I defib Morfa Garage |

‘Roedd y Trysorydd wedi anfon copïau o gyfrifion y Cyngor yn diweddu 31ain o Fawrth 2026 i bob Aelod. Fe aethpwyd drwy’r cyfrifon yn ofalus ag fe gymeradwyddwyd y cyfrifon yn unfrydol gan yr Aelodau ag hefyd cafwyd wybod bod Aelodau yr Is-Bwyllgor Ariannol wedi argymell cymeradwyo y cyfrifion hyn yn barod yn eu cyfarfod diwethaf. Cytunwyd gan pawb bod y llyfr cyfrifon yn cael ei arwyddo gan Cadeirydd a’r Clerc.

**4.11 <u>GOHEBIAETH</u>**

**A <u>Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd</u>**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn yr ardal rhwng y 20ed ar 24ain o’r mis hwn. ‘Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i’r Aelodau yn barod.

**B <u>Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd</u>**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn nysbysu y Cyngor bydd Ffordd Pentre’r Efail yn cael ei chau ar yr 21ain o’r mis hwn ar sail iechjyd a diogelch i’r cyhoedd yn ysod gwaith ar ran Dwr Cymru. ‘Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i’r Aelodau yn barod.

**C <u>Grwp Rhandiroedd Harlech</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor eu bod wedi anfon ffurflen gais am grant i’r rhandiroedd i Gyngor Gwynedd ag hefyd yn gofyn am eglurder ynglyn a sut fyddai taliadau yn cael ei gwneud iddynt gan y Cyngor ag datganodd y Clerc ei bod wedi anfon ateb yn gofyn iddynt anfon yr anfonebau i’r Cyngor unwaith fydd y gwaith wedi cael ei gario allan a bydd y taliadau hyn yn cael eu tynnu allan o’r swm oedd y Cyngor wedi ei gyllido ar eu cyfer yn y gyllideb am y flwyddyn ariannol hon.

**D <u>Un Llais Cymru</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ar y 14eg o’r mis hwn am 7.00 o’r gloch dros zoom. ‘Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i’r Aelodau yn barod.

**E <u>Un Llais Cymru</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod hyfforddiant am ddim i gael i Gynghorwyr ar wahanol bynciau a bod yna ddau le i bob Cyngor ar gael ar rhain. ‘Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i’r Aelodau yn barod.

**F <u>Network Rail</u>**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd lein y Cambrain rhwng Machynlleth a Pwllheli ar gau o’r 13eg tan yr 22ain o fis nesa oherwydd bod gwaith peirianyddol yn cael ei gario allan. ‘Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i’r Aelodau yn barod.

**G <u>Ms Ceri Griffith</u>**

Wedi derbyn e-ost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor ei bod yn ymddiswyddo fel aelod o’r Cyngor. Cytunwyd ei anfon ymlaen i’r Adran Etholiadol yn Gaernarfon.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.....................................................**